OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 2499 (Cy.217)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo Heb ei Feddiannu) (Cymru) 2008

Gwnaed - - - -	*20 Medi 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*23 Medi 2008*
Yn dod i rym - -	*1 Tachwedd 2008*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 45(1)(d), (9) a (10), 143(2) a 146(6) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Eiddo Heb ei Feddiannu) (Cymru) 2008 a deuant i rym ar 1 Tachwedd 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988;

ystyr "hereditament annomestig perthnasol" ("*relevant non-domestic hereditament*") yw unrhyw hereditament annomestig a ffurfir gan unrhyw adeilad neu ran o unrhyw adeilad, ynghyd ag unrhyw dir a ddefnyddir fel arfer neu y bwriedir ei ddefnyddio at ddibenion yr adeilad neu'r rhan;

ystyr "hereditament diwydiannol cymwys" ("*qualifying industrial hereditament*") yw unrhyw hereditament, heblaw hereditament manwerthol, mewn perthynas ag ef y mae pob adeilad yn yr hereditament yn—

(**1**) 1988 p.41; diwygiwyd adran 45(1)(d), a mewnosodwyd adrannau (9) a (10), gan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42), Atodlen 5, paragraffau 23(2) a (3) a 79(3).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol a geir yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 o ran Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672, erthygl 2, Atodlen 1). Breiniwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(a) un sydd wedi ei adeiladu neu ei addasu at ei ddefnyddio wrth gynnal masnach neu fusnes; a

(b) un sydd wedi ei adeiladu neu ei addasu at ddefnydd un neu ragor o'r dibenion a ganlyn, neu un neu ragor o'r dibenion hynny ac un neu ragor o ddibenion cysylltiedig ag ef neu hwy—

(i) gweithgynhyrchu, atgyweirio neu addasu nwyddau neu ddeunyddiau, neu roi nwyddau neu ddeunyddiau drwy unrhyw broses;

(ii) storio (gan gynnwys storio neu drafod nwyddau wrth eu dosbarthu);

(iii) gweithio neu brosesu mwynau; a

(iv) cynhyrchu trydan; ac

ystyr "hereditament manwerthol" ("*retail hereditament*") yw unrhyw hereditament lle y mae unrhyw adeilad neu ran o adeilad sydd yn yr hereditament wedi ei adeiladu neu ei addasu at ddiben darpariaeth fanwerthol—

(a) nwyddau, neu

(b) gwasanaethu, heblaw storio ar gyfer gwasanaethau dosbarthu, pan fo'r gwasanaethau i'w darparu ar yr hereditament neu oddi wrtho.

Hereditamentau a ragnodir at ddibenion adran 45(1)(d) o'r Ddeddf.

3. Mae'r dosbarth ar hereditamentau a ragnodir at ddibenion adran 45(1)(d) o'r Ddeddf yn cynnwys pob hereditament annomestig perthnasol heblaw y rhai a ddisgrifir yn rheoliad 4.

Hereditamentau nas rhagnodir at ddibenion adran 45(1)(d) o'r Ddeddf.

4. Yr hereditamentau annomestig perthnasol a ddisgrifir yn y rheoliad hwn yw unrhyw hereditament—

(a) y mae'r cyfan ohono, yn ddarostyngedig i reoliad 5, wedi bod heb ei feddiannu am gyfnod parhaus nad yw'n fwy na thri mis;

(b) sy'n hereditament diwydiannol cymwys ac y mae'r cyfan ohono, yn ddarostyngedig i reoliad 5, wedi bod heb ei feddiannu am gyfnod parhaus nad yw'n fwy na chwe mis;

(c) y mae ei berchennog wedi ei wahardd gan y gyfraith rhag ei feddiannu neu rhag caniatáu iddo gael ei feddiannu;

(ch) a gedwir yn wag oherwydd cam a gymerir gan y Goron neu ar ei rhan neu gan unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus neu ar eu rhan gyda golwg ar wahardd yr hereditament rhag cael ei feddiannu neu ar ei gaffael;

(d) sy'n destun hysbysiad cadw adeilad o fewn ystyr Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990(**3**) neu a cynhwysir mewn rhestr a luniwyd o dan adran 1 o'r Ddeddf honno;

(dd) a gynhwysir yn yr Atodlen o henebion a luniwyd o dan adran 1 o Ddeddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979(**4**);

(e) y mae ei werth ardrethol yn llai na £2,200;

(f) y mae gan ei berchennog hawl i feddiannu yn unig yn rhinwedd ei swydd fel cynrychiolydd personol person ymadawedig;

(**3**) 1990 p.9. Diffinnir "Building preservation notice" (hysbysiad cadw adeilad) yn adran 91(1).
(**4**) 1979 p.46.